# Cân Pentrecelyn

Dros filoedd o flynyddoedd,
Drwy foelydd llwm a llwyd,
Fe dyfodd cornant fechan
Yn genlli Afon Clwyd,
Beth bynnag sydd o'n blaenau,
Ble bynnag fyddwn ni,
Fe glywn ei llais yn galw,
Yn galw arnom ni.

Ni ydyw lli yr afon,
A'i llais yw'n gobaith ni,
Ein rhyddid yw ei chwerthin,
Ein hyder ydyw hi.
Fe lifodd ddoe yn heddiw,
Mae'r Pentre dan ein traed,
Y Dyffryn yn ein hesgyrn,
A'r afon yn ein gwaed.

*Beth bynnag fu, beth bynnag ddaw,*
*Mae'r blaned heddiw yn ein llaw,*
*Ble bynnag fory bydd ein traed,*
*Bydd Pentrecelyn yn ein gwaed.*